



# Raspberry Pi Foundation

## Canllawiau diogelu'r Raspberry Pi Foundation

### Adnabod a rhoi gwybod am gam-drin, ymateb i adroddiadau, a delio â datgeliadau

1. Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â [pholisi diogelu'r Raspberry Pi Foundation](#). Yn ogystal â darllen y ddogfen ganllaw hon, gofynnwn i chi gwblhau ein [modiwl e-ddysgu am ddim ar ddiogelu](#), a fydd yn cymryd 20 i 30 munud.

#### Y gwahanol fathau o gam-drin

2. "Ystyr cam-drin ydy hawliau dynol a sifil unigolyn yn cael eu torri gan berson neu bersonau eraill." No Secrets: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU, 2000.
3. Mae nifer o fathau o gam-drin, gan gynnwys:
  - a. Cam-drin corfforol
  - b. Cam-drin emosiynol
  - c. Esgeuluso
  - d. Cam-drin rhywiol
  - e. Cam-drin domestig
  - f. Cam-drin gwahaniaethol
  - g. Cam-drin ariannol
4. Mae cam-drin yn gallu perthyn i fwy nag un o'r categorïau hyn; er enghraifft mae bwlio a thrais domestig yn cynnwys cam-drin corfforol ac emosiynol yn aml.
5. Mae unrhyw un yn gallu cam-drin, gan gynnwys oedolyn yn cam-drin plentyn, plentyn yn cam-drin plentyn, neu oedolyn yn cam-drin oedolyn, ac mae pobl sy'n ymddwyn mewn modd camdriniol yn gallu dod o unrhyw gefndir.

#### Sut mae adnabod arwyddion o gam-drin

6. Dydy arwyddion cam-drin ddim yn amlwg bob amser ac efallai na fydd plentyn neu oedolyn agored i niwed yn dweud wrth unrhyw un beth sy'n digwydd iddynt.
7. Mae'n bosib bod plentyn yn cael ei gam-drin os, er enghraifft, ei fod:
  - a. Yn fudr, yn llwglyd neu wedi gwisgo'n annigonol yn rheolaidd
  - b. Yn ofn rhieni neu ofalwyr yn ôl pob golwg
  - c. Wedi'i gleisio neu ei anafu'n ddrwg
  - d. Yn dangos ymddygiad rhywiol nad yw'n ymddangos yn briodol i'w oedran

- e. Yn cael ei adael mewn sefyllfaoedd annïogel neu heb sylw meddygol
  - f. Yn cael ei fychanu a'i sarhau yn gyson, neu fod rhywun yn rhegi neu'n codi cywilydd arno yn gyson
  - g. Yn cael ei fagu mewn cartref lle mae trais domestig yn digwydd
  - h. Yn byw gyda rhieni neu ofalwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn ddifrifol
8. Dydy'r rhestr uchod ddim yn cynnwys pob arwydd posib o gam-drin plant; efallai byddwch yn sylwi ar agweddau eraill ar ymddygiad neu amgylchiadau sy'n eich pryderu.
9. Mae pobl anabl neu bobl ag anghenion addysgol arbennig yn wynebu risg uwch o gam-drin. Maen nhw hefyd yn llai tebygol o adnabod camdriniaeth neu godi eu llais eu hunain. Mae hyn yn golygu bod eich cyfrifoldeb chi am eu diogelwch yn hollbwysig. Os oes gennych unrhyw bryderon, dim ots pa mor fân, dylech bob amser gysylltu â thîm diogelu'r Raspberry Pi Foundation am gyngor.

### **Sut mae ymateb i arwyddion neu amheuon o gam-drin**

10. Os oes gennych bryder diogelu am rywun sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y Raspberry Pi Foundation, dylech godi'r mater ar unwaith gydag aelod o staff yn y lleoliad, a fydd yn eich arwain ar y camau priodol nesaf yn unol â pholisi diogelu'r lleoliad.
11. Llenwch y [ffurflen rhoi gwybod am bryder diogelu](#) ar-lein fer hon neu e-bostio [safeguarding@raspberrypi.org](mailto:safeguarding@raspberrypi.org) gan ddisgrifio beth roeddech chi wedi'i weld neu ei glywed, a pha gamau rydych chi wedi'u cymryd. Bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi gyda chynghor o fewn 24 awr.
12. Os hoffech siarad â rhywun ar frys, gallwch ffonio ein gwasanaeth cymorth ffôn 24 awr: +44 (0) 800 1337 112 (y DU yn unig) neu +44 (0) 203 6377 112 (unrhyw le yn y byd). Sylwch mai dim ond siaradwyr Saesneg sy'n gweithredu'r llinell hon.

### **Sut mae ymateb i honiadau o gam-drin**

13. Yn yr achos bod gennych bryder diogelu am oedolyn sy'n gysylltiedig â'r Raspberry Pi Foundation neu'n cymryd rhan yn ei weithgareddau, neu'n cael gwybod am bryder o'r fath, rhaid i chi:
- a. Rhoi gwybod am y pryder cyn gynted â phosib gan ddefnyddio ein [ffurflen rhoi gwybod am bryder diogelu](#) neu drwy e-bostio [safeguarding@raspberrypi.org](mailto:safeguarding@raspberrypi.org).
  - b. Cymryd yr holl gamau rhesymol i wneud yn siŵr bod yr oedolyn dan sylw'n tynnu'n ôl o unrhyw weithgaredd.

14. Os oes gennych bryder diogelu brys, ffoniwch ein gwasanaeth cymorth ffôn 24 awr: +44 (0) 800 1337 112 (y DU yn unig) neu +44 (0) 203 6377 112 (unrhyw le yn y byd). Sylwch mai dim ond siaradwyr Saesneg sy'n gweithredu'r llinell hon.
15. Os bydd pryder yn cael ei godi amdanoch chi, rhaid i chi roi'r gorau i gymryd rhan yn y clwb/digwyddiad/gweithgaredd a rhoi gwybod i'r Raspberry Pi Foundation ar unwaith drwy ein [ffurflen rhoi gwybod am bryder diogelu](#) neu drwy e-bostio [safeguarding@raspberrypi.org](mailto:safeguarding@raspberrypi.org).

### **Sut mae ymateb i blentyn neu oedolyn agored i niwed yn rhoi gwybod i chi am gam-drin (datgelu)**

16. Os bydd plentyn neu oedolyn agored i niwed yn dweud wrthy ch am gam-drin neu unrhyw beth sy'n eich pryderu:
  - a. Gwrandewch yn sensitif
  - b. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y ffeithiau
  - c. Gwnewch eich gorau i beidio â gofyn cwestiynau arweiniol
  - d. Rhowch sicrwydd iddynt nad ydynt mewn unrhyw drwbl a'u bod yn gwneud y peth iawn drwy roi gwybod i chi
  - e. Esboniwch y byddwch yn rhannu'r wybodaeth hon ag oedolyn arall
17. Ysgrifennwch bopeth maen nhw'n ei ddweud cyn gynted ag y gallwch chi. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib, dylech ddweud wrth y person sy'n gyfrifol am ddiogelu yn y lleoliad am eich pryder. Bydd yn gallu rhoi arweiniad i chi ar y camau nesaf, a fydd yn cynnwys gwneud yn siŵr eich bod wedi ysgrifennu'r hyn rydych chi wedi'i glywed mor gywir â phosib.
18. Llenwch y [ffurflen rhoi gwybod am bryder diogelu](#) ar-lein fer hon neu e-bostio [safeguarding@raspberrypi.org](mailto:safeguarding@raspberrypi.org) gan ddisgrifio beth rydych chi wedi'i glywed, a pha gamau rydych chi wedi'u cymryd. Bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi gyda chyngor o fewn 24 awr.
19. Os hoffech siarad â rhywun ar frys, gallwch ffonio ein gwasanaeth cymorth ffôn 24 awr: +44 (0) 800 1337 112 (y DU yn unig) neu +44 (0) 203 6377 112 (unrhyw le yn y byd). Sylwch mai dim ond siaradwyr Saesneg sy'n gweithredu'r llinell hon.

### **Sut bydd y Raspberry Pi Foundation yn delio â'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu**

20. Bydd Arweinydd Diogelu Dynodedig y Raspberry Pi Foundation yn cofnodi'r holl wybodaeth a geir am bryderon diogelu. Os bydd angen uwchgyfeirio'r mater, bydd yr Ymddiriedolwr Diogelu Arweiniol a Phrif Weithredwr y sefydliad yn cael gwybod o fewn 24 awr i gael yr adroddiad.
21. Byddwn yn storio'r holl adroddiadau'n ddiogel ac yn gyfrinachol.

## Polisi cyfrinachedd

22. Bydd preifatrwydd a chyfrinachedd yn cael eu parhau lle bo'n bosib, ond os bydd gwneud hyn yn rhoi plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl o niwed, eu diogelwch fydd y flaenoriaeth.